

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Ddoe a Heddiw

Ymchwiliad i'r Amgylchedd Hanesyddol

Ebrill 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddDGCh@assembly.wales**

Twitter: **@SeneddDGCh**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ddoe a Heddiw

Ymchwiliad i'r Amgylchedd Hanesyddol

Ebrill 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 28 Mehefin 2016. Mae ei gylich gwaith ar gael yn: www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

Cadeirydd y Pwyllgor:



Bethan Sayed AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mick Antoniw AC
Llafur Cymru
Pontypridd



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Siân Gwenllian AC
Plaid Cymru
Arfon



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Jack Sargeant AC
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Hannah Blythyn AC
Llafur Cymru
Delyn



Neil Hamilton AC
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Castell-nedd



Lee Waters AC
Llafur Cymru
Llanelli

Cynnwys

Rhagair	5
Argymhellion	6
1. Cefndir a Chylch Gorchwyl	8
Y cefndir	8
Cylch gorchwyl.....	8
Ein barn ni – Perfformiad Cadw	9
2. Gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol	10
Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf sydd eto i ddod i rym yn cynnwys:.....	10
Cydgrynhoi Deddfwriaeth.....	13
Cyfyngiadau ar Adnoddau	14
Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol	14
Ein Safbwynt – Gweithredu'r Ddeddf.....	15
3. Diogelu adeiladau a henebion rhestredig	17
Dull o ddynodi.....	17
Gorfodaeth	17
Meysydd penodol sy'n peri pryder	18
Ein barn ni.....	20
4. Diogelu adeiladau a henebion sydd mewn perygl	22
Adeiladau a henebion sydd mewn perygl	22
Addoldai hanesyddol	22
Grantiau i berchnogion adeiladau a henebion.....	23
Ein barn ni.....	24
5. Hwyluso cydweithio o fewn y sector	27
Y Bartneriaeth Strategol/Cymru Hanesyddol	27
Cydweithio ar draws sectorau	27
Ein barn ni.....	29
6. Gwneud y gorau o werth twristiaeth treftadaeth	31

Gwaith Cadw i gyrraedd ei dargedau ar gyfer cynhyrchu incwm.....	31
Twristiaeth Dreftadaeth a Marchnata	31
Cyllid yr Undeb Ewropeaidd	32
Ein barn ni.....	32
7. Adroddiad y Farwnes Andrews ar ddiwylliant a thlodi	34
Ein barn ni.....	34
8. Statws Cadw.....	36
Ein barn ni.....	36
Atodiad - Y Tystion a'r Dystiolaeth.....	38
Sesiynau tystiolaeth lafar	38
Tystiolaeth ysgrifenedig.....	40

Rhagair

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan gyfoethog o Gymru a phopeth sydd ynddi. Mae'n dyst i'n hanes ac yn rhoi lle penodol i'n stori a'n diwylliant cenedlaethol. Dyma'n doe ni, ond dyma'n heddiw hefyd.

Nid stori blwyfol mohoni. Mae'n cynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, o'r oesoedd canol hyd at y dyfeisiau diwydiannol a fu o gymorth i osod sylfeini'r byd modern.

Dyma'n treftadaeth ni, ac mae'n hollbwysig ein bod yn ei diogelu, yn ei meithrin ac yn sicrhau ei pharhad fel y gall y cenedlaethau a ddêl ddysgu ohoni a'i mwynhau. Ni ddylem ychwaith anwybyddu'r manteision economaidd y gall ein hamgylchedd eu cynnig inni drwy dwristiaeth a thrwy hyrwyddo Cymru fel lle i fyw a gweithio.

Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a basiwyd yn y Cynulliad diwethaf, nifer o newidiadau i'r dull o ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli'n gynaliadwy.

Rhoddodd y Ddeddf bwerau newydd i ddiogelu safleoedd hanesyddol pwysig, rhoddodd amddiffyniad newydd i gofebau a cheisiodd wella'r modd y caiff ein hamgylchedd hanesyddol ei reoli a'i ddehongli. Nid adeiladau yn unig yw'r amgylchedd hanesyddol; mae hefyd yn ymwneud â lleoedd a thraddodiadau a'r enwau sy'n eu disgrifio. Felly, roedd y Ddeddf, am y tro cyntaf, yn gwneud darpariaeth ar gyfer creu rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol.

Mae'r Ymchwiliad hwn wedi ystyried y modd y mae'r Ddeddf yn gweithredu'n ymarferol a'r camau sydd eu hangen nawr i sicrhau ei bod yn gwireddu ei haddewidion. Rydym hefyd wedi ystyried sut y mae Cadw, y rhan hono o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr amgylchedd hanesyddol, yn cyflawni ei rôl.

Ar y cyfan, credwn fod cynnydd rhesymol wedi'i wneud ers pasio'r Ddeddf, ond mae'n bwysig bod hynny'n parhau. Felly, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion ymarferol a fydd, yn ein barn ni, yn helpu i yrru'r cynnydd yn ei flaen fel bod ein hamgylchedd hanesyddol yn ffynnu, nid dim ond yn y presennol ond yn y dyfodol hefyd.

Bethan Sayed.

Bethan Sayed AC
Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Cadw bellach flaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno'r Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth..... Tudalen 16

Argymhelliad 2. Yn ystod y flwyddyn, dylai Cadw fod yn fwy eglur ynghylch y system o hysbysiadau cadwraeth yn y dyfodol..... Tudalen 16

Argymhelliad 3. Gan fod statws Cadw yn y dyfodol wedi'i bennu bellach, dylai'r Gweinidog weithredu'r rhannau hynny o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol sy'n ymwneud â Phanel Cyngori ar yr Amgylchedd Hanesyddol, neu, os nad yw'n cytuno bod angen panel, dylai gynnig newidiadau i'r gyfraith bresennol.
..... Tudalen 16

Argymhelliad 4. Dylid cadw llygad ar effeithiolrwydd y rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol, gyda'r bwriad o gyflwyno diogelwch ychwanegol os nad yw'r rhestr bresennol yn effeithiol..... Tudalen 16

Argymhelliad 5. Dylai'r Llywodraeth gadw'r Ddeddf dan adolygiad ac adolygu ei heffaith yn ffurfiol ar ôl iddi fod ar waith am bum mlynedd..... Tudalen 16

Argymhelliad 6. Dylai Cadw weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phartneriaid eraill i annog y sector amgylchedd hanesyddol i efelychu gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i wneud y dulliau o reoli'r sector yn fwy eco-gyfeillgar..... Tudalen 21

Argymhelliad 7. Dylai Cadw gyhoeddi ei arolwg o dreftadaeth mewn perygl cyn gynted â phosibl ac yn y ffordd fwyaf cyflawn sy'n gydnaws â'r gofynion diogelu data..... Tudalen 25

Argymhelliad 8. Dylai Cadw ailddechrau rhoi grantiau i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig sydd mewn perygl. Gallai hyn ganolbwyntio'n arbennig ar y grwpiau a ganlyn:

- Adeiladau / henebion sydd mewn perygl.
- Gwneud adeiladau rhestredig yn fwy eco-gyfeillgar..... Tudalen 26

Argymhelliad 9. Dylai Cadw sefydlu 'rhaglen gydnerthedd' (ar sail gwaith Cyngor y Celfyddydau yn y maes hwn) i helpu perchnogion asedau treftadaeth dynodedig i'w gwneud yn fwy cynaliadwy'n ariannol..... Tudalen 26

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog ddarparu targedau manylach, amserlen glir ar gyfer cynnydd a cherrig milltir mesuradwy ar gyfer datblygu partneriaeth Cymru Hanesyddol. Disgwyliwn gael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn y maes hwn gan y Gweinidog yn y dyfodol.....Tudalen 30

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog amlinellu cynllun ar gyfer annog a chefnogi'r bwriad i awdurdodau lleol gydweithio a gweithio ar draws ffiniau.....Tudalen 30

Argymhelliad 12. Dylai Cadw hyrwyddo safleoedd nad ydynt yn rhai Cadw ar ei safleoedd ei hun yn well, a dylai eraill sy'n gwarchod safleoedd ac adeiladau hanesyddol, yn enwedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau lleol, wneud yr un modd.....Tudalen 30

Argymhelliad 13. Dylai Cadw weithio (o fewn partneriaeth yr Amgylchedd Hanesyddol) gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i weld sut y gellir defnyddio gwybodaeth sylweddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y farchnad i:

- gynyddu refeniw ar draws sector yr amgylchedd hanesyddol; a
- gwella dehongliadau digidol ar draws safleoedd hanesyddol yng Nghymru. Tudalen 33

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn parhau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ym mha raglenni cyllido rhanbarthol ac amaethyddol bynnag a fydd ar gael yn sgil ymadawiad y DU o'r UE..... Tudalen 33

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog sbarduno adolygiad o'r hyn a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad diwylliant a thlodi y Farwnes Andrews i ddysgu pa arfer da y gellir ei rannu, pa wersi a ddysgwyd a pha gamau pellach y mae angen eu cymryd i weithredu'r argymhellion..... Tudalen 35

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach union natur yr “hyblygrwydd ychwanegol” y bydd Cadw'n ei gael yn y dyfodol, yn enwedig lle mae hyn yn wahanol i'r trefniadau a gynigir yn yr achos busnes a luniwyd ym mis Hydref 2017. Tudalen 37

1. Cefndir a Chylch Gorchwyl

Y cefndir

- 1.** Ar ôl ei sefydlu, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus eang i lywio ei waith yn y dyfodol. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at nifer o feysydd allweddol y dylai'r Pwyllgor roi blaenoriaeth iddynt, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol.
- 2.** Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) y Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016. Mae'n diwygio deddfwriaeth a oedd eisoes yn bod sy'n ymwneud â gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli'n gynaliadwy. Pan oedd y Pedwerydd Cynulliad yn trafod y Ddeddf, bu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn trafod a fyddai wedi bod yn well cyflwyno un Ddeddf Gydgrynhoi ar gyfer pob agwedd ar yr Amgylchedd Hanesyddol yn hytrach na Deddf sy'n diwygio'r gyfraith bresennol yn y maes hwn. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd hyn yn ymarferol, o ystyried cyn lleied o amser a oedd ar ôl cyn y diddymiad, a'i fod yn fater y gallai pwyllgor olynol fod yn dymuno'i ystyried fel rhan o waith craffu ehangach ar ôl deddfu.
- 3.** O ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a'r angen am graffu ar ôl deddfu, cytunodd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2017 ei bod yn amser priodol i adolygu gweithrediad y Ddeddf a materion eraill yn y sector, a chytunodd i gynnal ymchwiliad i'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.
- 4.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth gyntaf yr ymchwiliad hwn dywedodd un o swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor y byddai'n cymryd tua phum mlynedd hyd nes y byddai'r Llywodraeth yn gallu edrych yn gadarn ar effaith y Ddeddf ar y sector cyfan. Mae'r Pwyllgor wedi nodi hyn ac yn cytuno y byddai'n werth cynnal gwerthusiad pellach ar yr adeg honno, pan fyddai'r Ddeddf wedi'i gweithredu. Fodd bynnag, nid yw hyn rhwystro'r cipolwg cymharol gynnar hwn ar sut y mae'r ddeddfwriaeth yn gweithio'n ymarferol, yn enwedig o ystyried yr ymateb a gafodd y mater hwn i ymgynghoriad cyhoeddus cynharach y Pwyllgor.

Cylch gorchwyl

- 5.** Cytunodd y Pwyllgor y dylai ystyried y meysydd a ganlyn yn ystod yr Ymchwiliad:
 - gweithrediad Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol;
 - diogelu adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig;

- diogelu adeiladau a henebion sydd mewn perygl.
- hwyluso cydweithio o fewn y sector;
- gwneud y gorau o werth twristiaeth treftadaeth a gwaith Cadw i gyrraedd ei dargedau ar gyfer cynhyrchu incwm;
- rhoi adroddiad y Farwnes Andrews ar ddiwylliant a thlodi ar waith;
- cydweithio â pherchnogion asedau treftadaeth yn y sector preifat; a
- statws Cadw yn y dyfodol.

Ein barn ni – Perfformiad Cadw

Yn ystod yr ymchwiliad hwn mae amrywiaeth eang o randdeiliaid wedi canmol gwaith Cadw. Thema gyffredin yw eu bod yn ystyried Cadw yn bartner buddiol y gellir ymddiried ynddo a bod eu perthynas â'r sefydliad yn well nag y bu ers tro.

Er bod rhai o benderfyniadau neu gamau gweithredu penodol Cadw wedi ennyn beirniadaeth, mae'n galonogol bod enw da iddo ymhlith y rhan fwyaf o'i brif randdeiliaid a'i bartneriaid. Hoffem gofnodi ein gwerthfawrogiad o waith caled staff Cadw a'i bartneriaid wrth gyflawni hyn.

2. Gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol

6. Adran amgylchedd hanesyddol Cadw sy'n cyflawni gweithgareddau treftadaeth Llywodraeth Cymru. Mae Cadw yn rhan o Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, ac ers mis Tachwedd 2017, mae'n atebol i'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas AC, y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.

7. Ym mis Mawrth 2016, cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol. Bu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn craffu ar y Bil tua diwedd y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r mesurau allweddol yn y Ddeddf sydd bellach mewn grym yn cynnwys:

- Ehangu'r diffiniad o heneb gofrestredig: Gall Gweinidogion Cymru gydnabod a diogelu unrhyw safleoedd o bwys cenedlaethol os oes tystiolaeth yn dangos gweithgarwch dynol yn y gorffennol.
- Gwelliannau'n ymwneud â throeddau a'r amddiffyniadau a ddefnyddir gan y rhai sy'n difrodi henebion cofrestredig: cyfyngu ar allu troseddwr i ddefnyddio anwybodaeth ynghylch statws neu leoliad heneb fel amddiffyniad (gweler "Clawdd Offa");
- Cofnodion amgylchedd hanesyddol statudol (HER) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol;
- Camau newydd ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig.
- Rhestr o enwau lleoedd hanesyddol

Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf sydd eto i ddod i rym yn cynnwys:

- Y Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth;
- Cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol;
- Pwerau amrywiol i wella cadwraeth adeiladau rhestredig y mae angen eu hatgyweirio;
- Sefydlu Panel Cyngori ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru.

Y Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth

8. Bydd Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth gwirfoddol yn dod â pherchnogion, awdurdodau cydsynio a phartïon eraill â diddordeb ynghyd i greu cynlluniau rheoli hirdymor ar gyfer asedau hanesyddol (roedd disgwyl y byddai cytundebau o'r fath yn ddefnyddiol i dirfeddianwyr mawr fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a ddywedodd wrth y Pwyllgor ei bod yn awyddus iawn i weld hyn yn digwydd). Mae Cadw yn cynllunio ymgynghoriad ar reoliadau a chanllawiau arfer da ar gyfer 2018.

9. Yn y sesiwn gyda'r Gweinidog, esboniodd un o swyddogion Cadw ddull gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru o ran cyflwyno'r Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth.

“We're keen to identify partners—we're looking at the pilot ideas for how they might be working in practice. I know, from evidence that was given by the National Trust, that they're very keen to participate and work with us on the establishment and making these work in practice.

Ours are slightly different, because we've gone a bit further than in England, where they've already introduced heritage partnership agreements for listed buildings. We're proposing to allow estates and owners who have scheduled monuments on their land to also be included. So, there are some differences. We can learn lessons from what's happened across the border, but we need to, obviously, develop a particularly Welsh solution to this particular issue. But it's all about streamlining and making it easier to manage large estates through sensible, comprehensive and long-term conservation agreements and management agreements.”

Cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol

10. Mae cofrestr anstatudol ar gael ar hyn o bryd. Mae'r rhestr bresennol yn cael ei hadolygu, ond nid yw wedi'i chyhoeddi.

Diogelu adeiladau rhestredig y mae angen eu hatgyweirio.

11. Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad fel a ganlyn:

“The system of ‘preservation notices’ proposed in the 2016 Act, if implemented, would make this worse (*preserving buildings at risk*), especially by making it too risky for any rescuing purchaser to acquire a building at risk – a disastrous change.”

12. Dywedodd Cadw wrth y Pwyllgor fod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phryder y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, er i'r Gymdeithas ddweud nad oedd wedi gweld unrhyw gynigion hyd yma yn y cyswllt hwn. Hefyd, dywedodd Cadw wrth y Pwyllgor y bydd cynigion ar gyfer hysbysiadau diogelu:

“will be subject to full public consultation, and because it is secondary legislation ... it will be fully debated.”

13. Ymhelaethodd un o swyddogion Cadw ar y pwynt hwn yn y sesiwn gyda'r Gweinidog:

“We totally get the point that the CLA made in their evidence, that we want to avoid unintended consequences. These are regulatory-making powers within the Act, and, of course, they will be subject to full consultation therefore, and also debated by everyone here. So, we have commissioned research. The research is now available and is published. I think the Country Land and Business Association were wondering when that would be made publicly available. It is now publicly available, so you can see the range of issues that have been raised as a consequence of that in-depth analysis that they've undertaken. And we've got to be careful here, I think—the number of cases where such notices might be used is actually very small, and it's very particular and very focused. So, the response has to be quite nuanced as well. We don't want to have those unintended consequences that the CLA referred to, to make it a disincentive for people to actually take on buildings that are at risk. So, yes, there's a lot more work and thought to go in, and there are other measures that can be implemented, and the recommendations of that report suggest that there are other things that we can do in advance of any legislative measures.”

Y Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru

14. Yn ôl tystiolaeth Cadw:

“Mae'n rhy gynnar i ystyried y trefniadau manwl ar gyfer y Panel Cynghori heb i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Cabinet orffen yr adolygiad o drefniadau llywodraethu Cadw yn y dyfodol.”

15. Fodd bynnag, yn dilyn ei gyhoeddiad y byddai Cadw yn parhau'n rhan o Lywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd “yn ffan o baneli ymgynghorol”. Derbyniai “bod yna ymrwymiad o fewn y Ddeddf i hyn allu digwydd”. Fodd bynnag, ymhelaethodd nad oedd:

“...eisiau creu cynsail o ormod o baneli ymgynghorol, fel sydd, o bosibl, wedi bod yn y gorffennol mewn Llywodraeth...”

16. O ganlyniad:

“mi fyddwn ni'n chwilio am y cyngor gorau posibl...Efallai nid panel sefydlog ymgynghorol yn y ffordd draddodiadol fyddai'r ffordd orau i weithredu.”

17. Nid yw'n glir beth oedd y Gweinidog yn ei olygu wrth y datganiad hwn. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn nid oedd y rhannau hynny o'r Ddeddf sy'n ymwneud â sefydlu'r panel wedi'u cychwyn. Serch hynny, mae'r panel yn ofyniad clir o dan y Ddeddf ac mae nifer o'i ddyletswyddau penodol, a gofynion eraill mewn perthynas â'i aelodaeth, hefyd wedi'u nodi'n glir yn y Ddeddf. Er bod gan Weinidogion ddyletswydd gyfreithiol i sefydlu'r panel, mae ganddynt ddisgresiwn ynghylch pryd i ddod â'r ddyletswydd i rym, ac mae'n rhaid gwneud hynny drwy offeryn statudol.

Cydgrynhoi Deddfwriaeth

18. Croesawyd sylwedd y Ddeddf yn eang gan y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor. Er enghraifft, dywedodd Cyd-bwyllgor y Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol:

“Arguably Wales now benefits from having the most robust and progressive heritage protection in the United Kingdom.”

19. Galwodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad ar i'r ddeddfwriaeth berthnasol fod ar gael i'r cyhoedd mewn modd sydd wedi'i gydgrynhoi. Wrth drafod y cynnig hwn gyda'r Pwyllgor, gwyntyllwyd y syniad o wneud hyn fel ymarfer golygyddol yn hytrach na deddfwriaeth newydd.

20. Codwyd y modd y cyflwynwyd y ddeddfwriaeth fel pryder wrth graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol, gan ei fod yn diwygio deddfwriaeth bresennol yn anad dim, yn hytrach na chyfuno'r corff o gyfreithiau mewn Deddf newydd, annibynnol. Dywedodd un o swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor fod gan Lywodraeth Cymru raglen o edrych ar gyfraith Cymru a chydgrynhoi, ac y gallai Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol fod yn beilot ar gyfer y gwaith hwn. Dywedodd hefyd y byddai creu fersiwn o'r ddeddfwriaeth berthnasol nad yw'n gyfreithiol, a hynny fel ymarferol golygyddol yn creu hyd yn oed mwy o ddryswch yn y maes, o gofio na fyddai gan ddogfen o'r fath statws cyfreithiol.

Cyfyngiadau ar Adnoddau

21. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y pwyllgor: “ar y cyfan, mae’r awdurdodau wedi croesawu Deddf Amgylchedd Hanesyddol Cymru a’r dyletswyddau newydd yn ei sgîl.” Fodd bynnag, cyfeiria at brinder adnoddau ar gyfer gweithredu'r dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf, a'r adnoddau sydd eu hangen i ymateb i ymgynghoriadau ar y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf.

“Mae gwir angen adnoddau ar yr awdurdodau lleol i gyflawni'r dyletswyddau newydd. Mae nifer y swyddogion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf hyn ac mae rhaid i'r awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol flaenoriaethu gwaith ymatebol (materion/achosion cyfreithiol) ar draul y gorchwylion rhagweithredol (adfywio/ymwelwyr).”

22. Yna, dywed y Gymdeithas ei bod:

“...wedi awgrymu y dylai Cadw ariannu hyfforddiant yn sgîl y newidiadau deddfwriaethol a'r canllawiau cysylltiedig, hefyd. Prinder arian yw un o'r rhesymau a roed i esbonio pam nad yw hynny'n digwydd, ac fe hoffai WLGA weld cyllideb benodol y byddai Cadw yn ei defnyddio i helpu'r awdurdodau lleol yn eu gwaith ynglŷn â'r amgylchedd hanesyddol.”

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol

23. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y dylid diwygio'r Bil i gynnwys diogelu enwau lleoedd hanesyddol, cyflwynodd y cyn Ddirprwy Weinidog (Ken Skates AC) welliannau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru.

24. Ailadroddodd Comisiynydd y Gymraeg ei phryder o ran amddiffyniad annigonol ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Er ei bod yn croesawu'r diogelwch a gynigir gan y Ddeddf fel “cam cyntaf pwysig”, mae hi'n datgan bod: “angen trafodaeth bellach, fanylach ynghylch y modd y defnyddir y rhestr i ddiogelu'r enwau sydd arni yn absenoldeb Deddf i'w gwarchod”. Dywedodd swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor fod y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol a gyflwynwyd o dan y Ddeddf wedi'i chyflwyno ym mis Mai 2017, ac y byddai effeithiolrwydd y system hon yn destun proses adolygu gyson.

Ein Safbwynt – Gweithredu'r Ddeddf

Cyffredinol

Yn gyffredinol, rydym yn falch bod y Ddeddf, i bob golwg, yn gweithio'n dda ac fel y bwriadwyd. Cytunwn y dylai'r Llywodraeth ystyried effaith y Ddeddf yn drylwyr ar ôl iddi fod ar waith am bum mlynedd.

Y Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth

Nodwn fod Cadw yn cynllunio ymgynghoriad ar reoliadau a chanllawiau arfer da ar gyfer 2018. Dylid blaenoriaethu'r gwaith hwn gan ei bod yn debygol y bydd y Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth yn helpu i symleiddio'r broses o reoli'r amgylchedd hanesyddol ar lefel leol ac yn achos y tirfeddianwyr perthnasol.

Hysbysiadau Diogelu

Nodwn bryderon cychwynnol y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad a bod Cadw bellach yn credu ei fod wedi mynd i'r afael â'r pryderon hynny. Nodwn hefyd ddymuniad Cadw i fwrw ymlaen â'r maes hwn gan bwyll. Serch hynny, credwn hefyd fod angen mwy o eglurder yn y maes hwn ac rydym yn cytuno y dylai hyn fod yn flaenoriaeth uwch i Cadw yn ystod y flwyddyn nesaf.

Panel Cyngori

Nodwn nad yw'r Gweinidog yn rhy hoff o baneli cyngori. Credwn hefyd y dylai egluro ei ddatganiad na allai'r panel, pan gaiff ei sefydlu fod yn “banel sefydlog ymgynghorol yn y ffordd draddodiadol”.

Er gwaethaf barn y Gweinidog ar baneli cyngori, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn gyfreithiol ofynnol i Weinidogion sefydlu panel. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym beth amser yn ôl. Mae'r ffaith bod y darpariaethau perthnasol heb gael eu cychwyn eto yn edrych fel llusgo traed.

Os nad yw'r Gweinidog wedi'i argyhoeddi bod angen Panel Cyngori yna dylai roi cynigion deddfwriaethol i'r perwyl hwnnw gerbron y Cynulliad. Os nad yw am wneud hynny, dylai, fel mater o flaenoriaeth, weithredu'r Ddeddf y mae'r Cynulliad eisoes wedi'i phasio.

Cydgrynhoi Deddfwriaeth

Rydym yn croesawu parodrwydd y Llywodraeth i ystyried y syniad o fil cydgrynhoi, ond nid ydym wedi cael tystiolaeth gref bod hyn yn flaenoriaeth. Rydym hefyd yn nodi'r awgrym o “ddull golygyddol” i wella hygyrchedd y

ddeddfwriaeth. Er bod hyn, ar yr olwg gyntaf, yn apelio, credwn y gallai achosi mwy o ddryswch nag y mae'n ei ddatrys.

Enwau Lleoedd Hanesyddol

Nodwn bryderon Comisiynydd y Gymraeg, sydd wedi'u hamlinellu uchod. Dylai'r Llywodraeth gadw'r mater dan adolygiad byw a dylai fod yn fodlon cyflwyno rhagor o ddiogelwch i enwau lleoedd hanesyddol os nad yw'r rhestr gyfredol yn effeithiol.

ARGYMHELLION

Argymhelliad 1. Dylai Cadw bellach flaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno'r Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth.

Argymhelliad 2. Yn ystod y flwyddyn, dylai Cadw fod yn fwy eglur ynghylch y system o hysbysiadau cadwraeth yn y dyfodol.

Argymhelliad 3. Gan fod statws Cadw yn y dyfodol wedi'i bennu bellach, dylai'r Gweinidog weithredu'r rhannau hynny o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol sy'n ymwneud â Phanel Cyngori ar yr Amgylchedd Hanesyddol, neu, os nad yw'n cytuno bod angen panel, dylai gynnig newidiadau i'r gyfraith bresennol.

Argymhelliad 4. Dylid cadw llygad ar effeithiolrwydd y rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol, gyda'r bwriad o gyflwyno diogelwch ychwanegol os nad yw'r rhestr bresennol yn effeithiol.

Argymhelliad 5. Dylai'r Llywodraeth gadw'r Ddeddf dan adolygiad ac adolygu ei heffaith yn ffurfiol ar ôl iddi fod ar waith am bum mlynedd.

3. Diogelu adeiladau a henebion rhestredig

Dull o ddynodi

25. Disgrifiodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW) y modd mai “rhan graidd o strategaeth amddiffyn amgylchedd hanesyddol Lloegr a'r Alban yw eu dull systematig o ddynodi”. Roedd yn cymharu hyn â'r sefyllfa yng Nghymru, nad oes ganddi ddim rhaglen o'r fath ar gyfer asesu, arolygu na gwerthuso yn systematig. Mae'n disgrifio sut:

“The remit of the Royal Commission is to undertake exactly this kind of survey, but the lack of resources is a considerable restraint on our ability to help Cadw undertake a pro-active approach to listing.”

26. Dywedodd swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor fod “arolwg systematig” o adeiladau wedi'i gynnal ddeng mlynedd yn ôl, a bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno system o restru adeiladau'n unigol wedi hynny. Roedd y swyddog yn cydnabod bod bwch yn y rhestr o ran adeiladau sy'n dyddio o ddiwedd yr 20fed ganrif, er bod gan Cadw gynlluniau i unioni'r diffyg hwnnw. Yn y sesiwn gyda'r Gweinidog, ymhelaethodd un o swyddogion Cadw ar hyn, gan ddweud bod Cadw yn comisiynu gwaith ymchwil i edrych ar adeiladau cyhoeddus a godwyd tua diwedd yr ugeinfed ganrif i'w hasesu ar sail y meini prawf ar gyfer rhestru.

Gorfodaeth

27. Mae'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad wedi disgrifio'r “paradocs gorfodi”, pan fydd awdurdodau lleol yn cyfeirio eu hymdrechion tuag at berchnogion sydd wedi torri rheolau technegol yn hytrach na thuag at nifer fach o berchnogion milain ac anodd sy'n difrodi treftadaeth yn fwriadol, gan fod hyn yn rhoi cyfradd lwyddiant well i awdurdodau lleol.

28. Dywedodd swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor nad ydynt wedi gweld tystiolaeth a fyddai'n cefnogi'r honiad hwnnw, a dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad – mewn tystiolaeth lafar – fod y dystiolaeth yn hyn o beth yn “anecdotaidd”. Daeth Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad i'r casgliad a ganlyn:

“It is important to heritage protection that malign owners who deliberately cause serious harm to heritage are identified and enforced against; not doing that can lead to systemic harm, because malign purchasers of heritage can safely outbid benign purchasers.”

Meysydd penodol sy'n peri pryder

29. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth am sawl pryder penodol yn ymwneud â diogelu asedau hanesyddol.

Gweithgarwch Amaethyddol

30. Mynegodd Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr bryder ynghylch:

“... widespread damage to archaeological remains through ploughing and other agricultural activity.”

31. Dywedodd swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor nad oedd y broblem hon mor ddifrifol yng Nghymru ag y mae yn Lloegr – oherwydd arferion ffermio gwahanol – ac y byddai'n ymgynghori ar ganllawiau perthnasol yn 2018. Dywedodd Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr mewn tystiolaeth lafar:

“... in Wales, the agricultural pressure is much less than in other parts of the UK because it's a pastoral system and not an arable system.”

32. Awgrymodd Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr hefyd y dylid diwygio rhannau amrywiol o'r ddeddfwriaeth a'r polisi cadwraeth a chynllunio er mwyn adnabod a diogelu safleoedd o ddiddordeb archaeolegol yn well.

Archaeoleg Morol

33. Ychwanegodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru fel a ganlyn:

“Os oes un maes lle yr ydym yn parhau'n bryderus gan na chytunwyd eto ar strategaeth (gweler isod) nac arweiniad arfer gorau, maes archaeoleg arforol yw hwnnw, lle y mae'r adnodd morol dan bwysau o ganlyniad i echdynnu agregau a chynlluniau ar gyfer ffermydd gwynt a morgloddiau llanw.”

34. Dywedodd swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor bod canllawiau ar y mater hwn wrthi'n cael eu paratoi, gyda'r bwriad o ymgynghori arno yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Adnoddau

35. Tynnodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad sylw at y bwlch sylfaenol sy'n gwaethygu rhwng y system diogelu treftadaeth bresennol a'r adnoddau sydd ar gael ac roedd yn teimlo mai dyma oedd yr achos pryder mwyaf yn ymgynghoriad cyhoeddus 2013. Ymhelaethodd:

“The Welsh Government needs to address this problem. An obvious step, given that most proposed changes to heritage are neutral or beneficial, is to streamline legislation and procedures so that those proposals are handled in a lighter-touch way, freeing up scarce local authority and Cadw staff to focus primarily on the cases which might be harmful.”

36. Fodd bynnag, roedd Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr yn rhybuddio:

“The emphasis in planning reform is on streamlining and deregulation which in many cases (for instance, the widespread extension of permitted development rights) removes the safeguards which the requirement for a planning application provides for the historic environment.”

Materion Amgylcheddol

37. Amlinellodd Justin Albert o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol y gwaith mae'n ei wneud i sicrhau bod ei gweithgareddau'n fwy eco-gyfeillgar.

“We have partnered with the European Union on specific projects that have benefited Wales greatly, around tourism, agriculture, the environment, the protection of endangered species, and around our landscape. We have always had a significant amount of money. We are the largest farmer in Wales by far, and when we farm, wherever possible we change our tenancy to farm for nature so that we can increase the beauty of our environment.”

38. Dywedodd ei gydweithiwr, y Dr Emma Plunkett-Dillon, wrthym fel a ganlyn:

“We would see the environment as having a cultural resonance, so whether it's a built mansion or what we call the let estate. So, the historic environment pervades all of it and, therefore, when we look to Glastir and agri-environment payments, we're looking in terms of helping us deliver our natural environment objectives, but also it's part of a bigger package that helps us look after our buildings, secures the future, because the buildings are secure, looks after the entirety of the landscape. So, that's what we bring to the table. We look at everything in totality. We're not looking at one bit or the other. It's a joined-up continuum, and that's a really strong point for us.”

39. Aeth Mr Albert rhagddo i ddweud:

“So, we're hoping we will see continuation of support for the historic environment because it is absolutely essential for Wales. We need this. We need this environment to generate tourism, to make us proud to be Welsh. I'm biased; this is my world. But I also see the absolute benefit it delivers for the nation.”

Ein barn ni

Dynodiad a Gorfodi

Nodwn bryderon y Comisiwn Brenhinol ynglŷn â dull Cadw o ddynodi a bod Cadw wedi cydnabod rhai o'r pryderon hyn ac yn dechrau mynd i'r afael â hwy trwy'r gwaith ymchwil sydd ganddo ar y gweill. Edrychwn ymlaen at glywed canlyniad yr ymchwil honno maes o law a disgwyliwn y bydd camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau y mae'n eu canfod.

Nodwn hefyd bryderon y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad ynghylch yr hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel “paradocs gorfodi”. Fodd bynnag, cyhyd â bod y dystiolaeth yn parhau i fod yn anecdotaidd, mae'n anodd argymhell newidiadau penodol. Mae'n bwysig bod Cadw yn monitro'r mater hwn yn ofalus mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, fel y gall ymateb yn briodol pe bai tystiolaeth fwy pendant yn dod i'r amlwg.

Archaeoleg Amaethyddol a Morol

Yn yr un modd, er y bydd yn bwysig cadw llygad ar ddatblygiadau yn y maes hwn, ni chawsom dystiolaeth gref a fyddai'n ein harwain i argymhell newidiadau penodol mewn polisi neu ddeddfwriaeth ar hyn o bryd.

Adnoddau

Nodwn y pryderon a fynegwyd, sy'n symptom o bwysau ehangach ar adnoddau'r sector cyhoeddus. Rydym yn ymdrin â'r mater hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Materion Amgylcheddol

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwneud gwaith rhagorol o ran sicrhau bod materion amgylcheddol yn ganolog i'w chenhadaeth. Byddem yn annog Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i gydweithio yn y maes hwn i drafod yr hyn y gellir ei ddysgu o waith

yr Ymddiriedolaeth. Gallai Cadw efelychu gwaith yr Ymddiriedolaeth yn y maes hwn, o ran y ffordd y mae'n rheoli ei henebion a'i adeiladau a hefyd yn y canllawiau a'r arweinyddiaeth y mae'n eu rhoi i sector yr amgylchedd hanesyddol yn gyffredinol.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 6. Dylai Cadw weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phartneriaid eraill i annog y sector amgylchedd hanesyddol i efelychu gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i wneud y dulliau o reoli'r sector yn fwy eco-gyfeillgar.

4. Diogelu adeiladau a henebion sydd mewn perygl

Adeiladau a henebion sydd mewn perygl

40. Nododd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad fod dwy ran i'r ateb ar gyfer y broblem adeiladau sydd mewn perygl:

- cyngor da sy'n seiliedig ar ddiagnosis cywir o'r broblem, y mae'n cymryd yn ganiataol sydd wedi'i gynnwys yng nghyhoeddiad diweddar Cadw, "Rheoli adeiladau rhestredig sydd mewn perygl yng Nghymru"; a
- phan fydd defnydd arall hyfyw ar gyfer adeilad, ac y mae'r perchnogion yn gwrthod arfer y defnydd hwnnw ohono, efallai y bydd angen defnyddio'r pŵer i newid y berchnogaeth, i fod yn llawer mwy pendant ac effeithiol nag yw yn awr.

41. Nodir yn nhystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

"Mae'r awdurdodau lleol wedi bod yn rhagweithredol trwy lunio strategaethau ar gyfer nodi adeiladau mewn perygl. O ganlyniad, mae nifer o adeiladau pwysig wedi'u cadw. Gan fod llai o adnoddau i'r awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol, fodd bynnag, fe fydd llai o fentrau rhagweithredol, yn ôl pob tebyg."

Addoldai hanesyddol

42. Esboniodd Cytûn y pwysau ar hen eglwysi, gan nodi:

"The greatest risk to ecclesiastical buildings in Wales is caused by their under-use and, in some cases, by their loss of viability. This relates partly to declining patterns of regular church attendance and financial support, and also to the unsuitability of many historic places of worship for modern worship or other uses."

43. Ymhelaethodd Cytûn ar hyn mewn tystiolaeth lafar gan nodi:

"the churches and chapels and places of worship of Wales staying the same is not an option. So, the only options are that you adapt and develop what you're doing in those buildings ... Because, fundamentally, having big spaces for lots of people to stand in a ceremony or at worship is not where the future lies."

44. Noda mai'r ffordd orau o ddiogelu'r rhan fwyaf o'r adeiladau hyn yw drwy eu galluogi i gael eu haddasu mewn modd sensitif. Fodd bynnag, mae'n lleisio pryder:

“...a large number a large number of places of worship have been listed, well beyond the number that could ever be used – even with adaptation – as places of worship or auditoria. We would like to see in such circumstances some consideration being given to prioritising buildings so that the most important are kept even if others must be de-listed, or heavily adapted.”

45. Mae gwefan Cadw yn nodi y caiff ceisiadau i ddad-restru eu hystyried, fel arfer, ar y sail nad yw'r adeilad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei restru.

46. Mae tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol yn nodi, er bod Cadw yn cynnal arolwg o dreftadaeth mewn perygl, nid yw'n cyhoeddi'r rhestr hon – yn wahanol i'r Alban a Lloegr, lle mae cyrff diogelu treftadaeth yn cyhoeddi rhestr o asedau hanesyddol sydd mewn perygl. Mae'r adroddiad yn gorffen drwy ddweud:

“Welsh churches are at a disadvantage to their competitors for funding in England and Scotland due to the opaque nature of the Cadw survey.”

47. Pan bwyswyd arno am y mater hwn, dywedodd un o swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor:

“There's a balance that has to be struck between making information publicly available and, of course, protecting access to personal information about private property. But, we are in a process of renewing the contract that is looking at the assessment of risk facing all our listed buildings across Wales, and we are building into that an element of public access to the list of buildings at risk, without endangering the other issues.”

Grantiau i berchnogion adeiladau a henebion

48. Dywedodd un o swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor fod Cadw wedi cyfyngu ar roi grantiau i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig er mwyn defnyddio'r arian hwn ar gyfer gwelliannau cyfalaf a helpodd i gynyddu refeniw Cadw. Yn y sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft, ymhelaethodd ar y pwynt hwn, gan nodi bod y penderfyniad hwn wedi cael effaith, ac y bydd yn parhau i gael effaith, ar y bobl hynny sy'n berchen ar adeiladau rhestredig ac sydd am

wneud cais am arian gan Cadw. Awgrymodd, o ystyried bod cyllid Cadw bellach yn fwy cynaliadwy, bod potensial i ddadrewi'r grantiau hynny.

49. Pan ofynnodd aelod o'r pwyllgor a oedd Cadw'n ystyried rhaglen gydnerthedd tebyg i raglen y Cyngor Celfyddydau ar gyfer pobl a allai fod â diddordeb mewn codi arian er mwyn gwella neu achub treftadaeth sydd mewn perygl, ateb y Gweinidog oedd:

“We didn't, but we have now.”

Ein barn ni

Adeiladau a henebion sydd mewn perygl

Nodwn awgrym y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad y gallai fod angen defnyddio'r pŵer i newid perchnogaeth adeiladau yn orfodol yn fwy cadarn ac effeithiol nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Cytunwn y dylid ystyried y pŵer hwn yn rhagweithiol ar gyfer y nifer fach o berchnogion nad ydynt yn fodlon ystyried defnyddiau hyfyw amgen ar gyfer adeiladau sydd mewn perygl. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi ac yn cydymdeimlo â sefyllfa awdurdodau lleol sy'n ei chael hi'n anoddach i barhau i weithredu'n rhagweithiol fel hyn yn wyneb y cyfyngiadau cynyddol ar adnoddau.

Addoldai

Rydym yn cydnabod problem y nifer fawr o leoedd rhestredig a chyn addoldai a'r costau y gall hyn eu hachosi ar gyfer y plwyfi a'r cynulleidfaoedd dan sylw, yn enwedig lle nad yw'r eiddo bellach yn addas at y diben gwreiddiol.

Nodwn fod Cytûn wedi gofyn am ystyried “dad-restru” rhai o'r adeiladau hyn a chanolbwyntio'r ymdrechion cadwraeth ar enghreifftiau mwy nodedig. Er ein bod yn cydymdeimlo â'r broblem, byddai hyn yn golygu newid sylfaenol i'r broses a'r meini prawf ar gyfer restru a byddai'n golygu, mewn gwirionedd, penderfynu peidio â diogelu adeiladau y tybir eu bod yn deilwng o gael eu diogelu. Efallai bod angen dadl fwy cyffredinol ar y mater hwn, ond nid ydym yn argyhoeddedig bod dad-restru yn ffordd ymarferol ymlaen yn yr amgylchiadau presennol.

Nododd tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol nad yw Cadw, yn wahanol i gyrff cyfatebol yn yr Alban a Lloegr, yn cyhoeddi rhestrau o'r asedau hanesyddol sydd mewn perygl a ganfu yn ystod ei arolwg o dreftadaeth mewn perygl. Rydym yn nodi bod Cadw, i ryw raddau, yn ailystyried ei safbwynt ar y

mater hwn, ond mae'n dal i ymddangos fel petai'n anfodlon cyhoeddi gwybodaeth yn agored.

Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan ddadleuon Cadw ar y pwynt hwn a chytunwn y dylid cyhoeddi data'r arolwg, i'r graddau y mae hyn yn gydnaws â diogelu data, cyn gynted ag y bo modd.

Grantiau i berchnogion

Yn ei dystiolaeth, eglurodd Cadw ei fod, fwy neu lai, wedi rhoi'r gorau, dros dro, i roi grantiau i berchnogion adeiladau rhestredig fel y gellid buddsoddi'r arian mewn ffyrdd a fyddai'n helpu i gynyddu incwm Cadw o rai o'r asedau hanesyddol allweddol y mae'n eu rheoli'n uniongyrchol. Nodwn fod hyn wedi arwain at sicrhau bod sefyllfa ariannol Cadw bellach yn fwy cynaliadwy.

O ystyried hyn, credwn fod yr amser bellach wedi dod i Cadw ailddechrau rhoi grantiau i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig sydd mewn perygl. Gallai hyn ganolbwyntio'n arbennig ar adeiladau neu henebion sydd mewn perygl neu ar wneud adeiladau rhestredig yn fwy eco-gyfeillgar. Gallai cyllid yn yr ardal hon hefyd fod o gymorth allweddol i'r rhai sy'n ceisio cynnal neu addasu lleoedd addoli a chyn addoldai.

Y Rhaglen Gydnerthedd

Yn ogystal ag ailddechrau rhoi grantiau, dylai Cadw hefyd ystyried sefydlu rhaglen gydnerthedd, sy'n debyn i'r un a gyflwynwyd yn llwyddiannus gan Gyngor y Celfyddydau, i helpu perchnogion adeiladau treftadaeth i dalu'r costau ariannol o'u cynnal a'u cadw. Mae Cyngor y Celfyddydau yn disgrifio'r rhaglen gydnerthedd fel ffordd newydd o ddatblygu modelau busnes cynaliadwy. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio modelau busnes newydd, sicrhau'r incwm gorau posibl a datblygu ffyrddiau newydd o incwm, yn ogystal â datblygu capasiti digidol a dealltwriaeth o farchnata.

ARGYMHELLION

Argymhelliad 7. Dylai Cadw gyhoeddi ei arolwg o dreftadaeth mewn perygl cyn gynted â phosibl ac yn y ffordd fwyaf cyflawn sy'n gydnaws â'r gofynion diogelu data.

Argymhelliad 8. Dylai Cadw ailddechrau rhoi grantiau i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig sydd mewn perygl. Gallai hyn ganolbwyntio'n arbennig ar y grwpiau a ganlyn:

- Adeiladau / henebion sydd mewn perygl.
- Gwneud adeiladau rhestredig yn fwy eco-gyfeillgar.

Argymhelliad 9. Dylai Cadw sefydlu “rhaglen gydnerthedd” (ar sail gwaith Cyngor y Celfyddydau yn y maes hwn) i helpu perchnogion asedau treftadaeth dynodedig i'w gwneud yn fwy cynaliadwy'n ariannol.

5. Hwyluso cydweithio o fewn y sector

Y Bartneriaeth Strategol/Cymru Hanesyddol

50. Ym mis Mai 2017, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i argymhelliad yn yr adolygiad o ddyfodol gwasanaethau treftadaeth yng Nghymru, drwy sefydlu, “Partneriaeth Strategol” rhwng Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor, ym mis Gorffennaf, y byddai'n cael adroddiad ar ei chynnydd gan y Bartneriaeth Strategol ym mis Medi 2017. Mae tystiolaeth Cadw i'r Pwyllgor yn nodi bod y Bartneriaeth yn ystyried datblygu nifer o fentrau ar hyn o bryd, gan gynnwys datblygu sgiliau, a darpariaeth fasnachol a chydweithredol o ran swyddogaethau swyddfa.

51. Yn flaenorol, roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi ymrwymo i ffurfio corff newydd, sef Cymru Hanesyddol. Dywedodd:

“Rwyf bellach am fynd ymlaen â'r gwaith o ddod â swyddogaethau masnachol Cadw ac Amgueddfa Cymru – National Museum Wales at ei gilydd.”

52. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Chwefror cafwyd y diweddariad ysgrifenedig gan y Gweinidog am bartneriaeth Cymru Hanesyddol, nad oedd yn cynnwys braidd ddim gwybodaeth ychwanegol heblaw dangos rhywfaint o gynnydd a nifer o uchelgeisiau lefel uchel. Nid oedd y wybodaeth ddiweddaraf yn cynnwys unrhyw awgrym clir am amserlen nac unrhyw gerrig milltir mesuradwy.

Cydweithio ar draws sectorau

53. Nododd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad fod y pwysau y mae perchnogion asedau treftadaeth yn eu hwynebu, yn enwedig o ran costau cynnal a chadw uchel iawn yr asedau, a'r ffaith nad yw'n bosibl talu'r costau oni all yr asedau fod o rywffaint o ddefnydd cynhyrchiol, i raddau helaeth, yn bwysau cyffredin ar bob math o berchennog: ac o ganlyniad mae'n rhyfeddu at farn draddodiadol y sector cyhoeddus sef bod perchnogion y sector preifat mewn categori hollol wahanol. Aeth ymlaen i annog cydweithredu ar draws y sectorau wrth hyrwyddo a rheoli asedau hanesyddol fel bod (er enghraifft) safleoedd Cadw yn cael eu hyrwyddo mewn lleoliadau eraill, a bod safleoedd Cadw yn hyrwyddo safleoedd eraill.

54. Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn awgrymu bod angen i berchnogion asedau treftadaeth y sector cyhoeddus arwain trwy esiampl o ran eu

rheolaeth, i roi hygrededd iddynt wrth berswadio eraill i gynnal adeiladau fel eu bod mewn cyflwr cadarn.

55. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn egluro sut mae wedi gweithio gyda pherchnogion preifat asedau treftadaeth, gan gynnwys ar gynlluniau a ariennir gan y loteri o dan Fenter Treftadaeth y Trefi:

“Mae sawl awdurdod lleol wedi derbyn arian y Lotri Wladol i wella safleoedd treftadaeth ein trefi trwy Fenter Treftadaeth y Trefi. Perchnogion preifat piau llawer o adeiladau canol pob tref ac mae'r awdurdodau lleol wedi cydweithio â nhw a chynnig anogaeth ariannol i'w galluogi i fuddsoddi yn eu hadeiladau. Mae'r awdurdodau'n cydweithio â pherchnogion preifat mewn nifer o ffyrdd megis trwy roi caniatâd, cynnig cynghorion a chyfarwyddyd, nodi ffynonellau ariannu a hyrwyddo'r safle lle bo'n briodol.”

56. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn egluro sut mae Cadw, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol yn ystyried ffyrdd amgen o gyflawni'r gwaith o ganlyniad i faterion yn ymwneud ag adnoddau:

“Cydnabu saith awdurdod cynllunio lleol y gogledd (gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) fod gwasanaethau arbenigol megis y rhai ar gyfer y dreftadaeth adeiledig o dan bwysau. Fe sefydlon nhw brosiect i adolygu ac adlunio gwasanaethau o'r fath gan gynnwys ystyried cyflwyno trefniadau rhanbarthol. Felly, fe ddaeth Cadw, swyddogion cadwraeth yr awdurdodau a dwy ymddiriedolaeth archaeolegol ynghyd i bennu ffyrdd o wella gwasanaethau. Mae nifer o gynigion wedi deillio o hynny.”

57. Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud:

“Yn ogystal â'r gwaith yn y gogledd, mae Cadw yn arwain cylch gorchwyl a gorffen ac iddo aelodau sy'n cynrychioli CLILC a'r awdurdodau lleol i ystyried materion tebyg ar ran Cymru gyfan. Bydd y cylch yn cyflwyno adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet cyn bo hir (gan gynnwys argymhellion ynglŷn â chaniatâd i restru adeiladau, yn ôl pob tebyg).”

58. Ymddengys i'r Gweinidog gyfeirio at y gwaith hwn pan roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, gan nodi:

“Rwy'n awyddus iawn i weld y math o gydweithredu sy'n digwydd yn awr yn rhanbarthol – byddwn yn dweud yn arbennig yn y gogledd, ond

mae'r pethau hyn yn dechrau digwydd yn gyffredinol ledled Cymru – lle mae'r awdurdodau cynllunio, trwy gyfrwng memorandwm dealltwriaeth ac amrywiol ffyrdd eraill wedi bod yn defnyddio eu hadnoddau yn fwy effeithiol. Byddwn yn annog hynny, a byddaf yn sicr yn ei drafod gyda'r Gweinidog cynllunio fel y gallwn weld yr hyn y gallwn ei wneud ymhellach.”

Ein barn ni

Y Bartneriaeth Strategol

Nodwn, er gwaethaf amheuon blaenorol rhai partneriaid, fod y bartneriaeth strategol rhwng Cadw a rhanddeiliaid eraill yn mynd rhagddi gyda chydysyniad y naill ochr a'r llall. Rydym yn croesawu'r cydweithrediad hwn ac yn cytuno bod yna gryn werth bod y sefydliadau hyn yn rhannu sgiliau ac arbenigedd masnachol rhyngddynt. Fodd bynnag, ymddengys bod y cynnydd yn araf iawn ac mae prinder unrhyw fanylion ystyrlon, amserlen glir a thargedau mesuradwy yn y wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynodd y Gweinidog yn fater o bryder i ni.

Cydweithio ar draws sectorau

Rydym eisoes wedi nodi bod awdurdodau lleol yn ei chael hi'n fwyfwy anodd sicrhau adnoddau ar gyfer eu gwaith i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol. Roeddem yn falch o nodi bod Cadw, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol hefyd yn ystyried ffyrdd eraill o weithio gan gynnwys cydweithio'n rhanbarthol ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Roeddem hefyd yn falch bod y Gweinidog am annog y dull hwn o weithredu. Fodd bynnag, os yw'r problemau capasiti y cawsom wybod amdanynt i gael eu datrys, mae angen gweithredu ar frys a dylai'r Gweinidog ddangos arweinyddiaeth yn y maes hwn i sicrhau bod y bwriad i gydweithio yn cael ei wireddu, nid dim ond cael ei drafod. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gael rhagor o esiamplau o'r gwaith hwn ledled Cymru.

Cytunwn hefyd y dylai Cadw wneud yr hyn a all i hyrwyddo safleoedd nad ydynt yn rhai Cadw yn ei adeiladau a'i henebion ac y dylai gwarchodwyr eraill safleoedd ac adeiladau hanesyddol, yn enwedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau lleol, wneud mwy i hyrwyddo safleoedd Cadw.

ARGYMHELLION

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog ddarparu targedau manylach, amserlen glir ar gyfer cynnydd a cherrig milltir mesuradwy ar gyfer datblygu partneriaeth Cymru Hanesyddol. Disgwyliwn gael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn y maes hwn gan y Gweinidog yn y dyfodol.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog amlinellu cynllun ar gyfer annog a chefnogi'r bwriad i awdurdodau lleol gydweithio a gweithio ar draws ffiniau.

Argymhelliad 12. Dylai Cadw hyrwyddo safleoedd nad ydynt yn rhai Cadw ar ei safleoedd ei hun yn well, a dylai eraill sy'n gwarchod safleoedd ac adeiladau hanesyddol, yn enwedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau lleol, wneud yr un modd.

6. Gwneud y gorau o werth twristiaeth treftadaeth

Gwaith Cadw i gyrraedd ei dargedau ar gyfer cynhyrchu incwm

59. Mae papur y Gweinidog yn nodi mai 2016-17 oedd blwyddyn fwyaf llwyddiannus Cadw erioed, gydag 1.4 miliwn o ymwelwyr yn dod i safleoedd wedi'u staffio, a £6.6 miliwn o incwm. Ail-fuddsoddir yr incwm hwn yng ngweithgareddau Cadw. Dywed, dros y tair blynedd ddiwethaf, fod Cadw wedi rhagori ar “dargedau uchelgeisiol”. Mae'n nodi bod aelodaeth Cadw ar y lefel uchaf erioed.

60. Yn ystod y sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft, dywedodd un o swyddogion Cadw wrth y Pwyllgor mai'r brif ffordd y mae Cadw wedi gwella ei incwm yw drwy ehangu'r farchnad y mae'n ceisio ei denu. Yn yr un cyfarfod, dywedodd y Gweinidog:

“We need to push forward with the digital interpretation at the sites in order to attract more and more visitors.”

Twristiaeth Dreftadaeth a Marchnata

61. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru “trwy eu rôl ehangach, mae'r awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i hybu twristiaeth”, fodd bynnag, “mae pwysigrwydd treftadaeth – yn ystyr lydan y gair – i ddiwydiant yr ymwelwyr heb ei werthfawrogi'n llawn bob amser”. Mae'n egluro bod Grŵp Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad o'r enw Gwerth Treftadaeth:

“...am fuddion treftadaeth i Gymru a gallai fod cyfleoedd i ychwanegu at hynny o hyn ymlaen i gynnwys cyfraniadau sectorau eraill megis llywodraeth leol. Trwy eu rôl ym maes twristiaeth, bydd yr awdurdodau lleol yn cydweithio â Cadw er mwyn annog pobl i ymweld â safleoedd treftadaeth a gwneud y gorau o'u gwariant yn y maes hwn.”

62. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wrth y Pwyllgor ei bod wrthi'n datblygu data (“reinventing our insights” yng ngeiriau Justin Albert) ac y dylai rannu'r data hyn mor eang â phosibl.

63. Pan holodd y Pwyllgor a oedd gwerth mewn ceisio cael yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i weithio'n fwy clos gyda Chymru Hanesyddol, yn enwedig o ran ei harbenigedd ym maes marchnata, atebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

“yes, and I will do it.”

Cyllid yr Undeb Ewropeaidd

64. Mae'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru wedi derbyn arian gan yr UE o'r blaen ar gyfer gwaith datblygu twristiaeth. Er enghraifft, derbyniodd Prosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw £8.5 miliwn o gyllid strwythurol (allan o gyfanswm cyllideb prosiect gwerth £19 miliwn). Mae arian hefyd wedi bod ar gael ar gyfer prosiectau treftadaeth o dan gyllid datblygu gwledig y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad wedi galw am arian ar gyfer treftadaeth i fod yn rhan o gyllid datblygu gwledig ar ôl i'r DU adael yr UE.

Ein barn ni

Cydweithredu ar farchnata

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol arbenigedd sylweddol mewn marchnata, a brand cryf, ac mae wedi mynegi parodrwydd i rannu ei harbenigedd â chyrrff Cymru Hanesyddol. Mae ganddi hefyd gryfderau o ran dehongli safleoedd yn ddigidol. Mae'r Gweinidog hefyd wedi dweud ei fod am roi anogaeth i weithio'n agosach a rhannu arbenigedd, yn enwedig mewn marchnata. O ystyried hyn, gobeithiwn weld cynnydd buan yn y maes hwn.

Cyllid yr Undeb Ewropeaidd

Rydym wedi nodi'r cyllid sylweddol y mae'r amgylchedd hanesyddol wedi'i gael gan yr Undeb Ewropeaidd. Heb wneud unrhyw sylwadau ar y rhinweddau o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, nac ar y trafodaethau sydd ar y gweill ynghylch pwerau a chyllid cysylltiedig, bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn canfod ffyrdd o ailgyflwyno neu ddyblygu'r cyllid hwnnw pan fydd y DU wedi gadael yr UE.

ARGYMHELLION

Argymhelliad 13. Dylai Cadw weithio (o fewn partneriaeth yr Amgylchedd Hanesyddol) gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i weld sut y gellir defnyddio gwybodaeth sylweddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y farchnad i:

- gynyddu refeniw ar draws sector yr amgylchedd hanesyddol; a
- gwella dehongliadau digidol ar draws safleoedd hanesyddol yng Nghymru.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn parhau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ym mha raglenni cyllido rhanbarthol ac amaethyddol bynnag a fydd ar gael yn sgil ymadawiad y DU o'r UE.

7. Adroddiad y Farwnes Andrews ar ddiwylliant a thlodi

65. Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad y Farwnes Andrews ar ddefnyddio diwylliant, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol, i fynd i'r afael â thlodi. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio hyrwyddo argymhellion yr adroddiad drwy ei Rhaglen Fusion: Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant. Roedd cyfnod peilot y rhaglen wedi parhau o 2015 hyd 2017. Mae hwn wedi'i ymestyn ar gyfer 2017-18. Yng nghyllideb ddrafft 2018-19 dyrannwyd £280,000 i'r cynllun hwn (cynnydd o £10,000 ar y flwyddyn flaenorol).

66. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi dweud bod cyflwyno'r adroddiad hwn yn faes arall lle nad oes unrhyw ddiffyg uchelgais yn y sector, ond lle nad oes adnoddau i roi cynlluniau dibynadwy ar waith.

67. Nodir yn nhystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“Cefnogodd WPGA adroddiad y Farwnes Andrews am y modd y gall cyrff diwylliannol a threftadaeth helpu i leddfu tlodi. Cydweithion ni â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i roi argymhellion yr adroddiad ar waith gan gynnwys sefydlu ardaloedd arbrofol.”

68. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod angen i'r gwaith ar adroddiad Andrews barhau “ar drywydd cydgyfeirio a chydlynu cyflawn” â gwaith cysylltiedig ar rôl y celfyddydau ym maes addysg (adroddiad yr Athro Dai Smith) a datblygu cwricwlwm newydd yn sgil Adolygiad Donaldson.

69. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor yn y sesiwn cyllideb ddrafft, er nad oedd wedi edrych yn fanwl ar y rhaglen hon, bod nodi cyfleoedd o ran datblygiad personol a chymdeithasol i ddinasyddion Cymru trwy raglen ddiwylliannol yn rhywbeth yr oedd yn gefnogol iawn iddo. Dywedodd:

“...ond rydym ni eisiau pwysleisio'r angen i ddatblygu sgiliau a gallu pobl i sicrhau cyflogaeth ac i ddilyn a chefnogi gweddill o amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn y gwaith yma.”

Ein barn ni

Er bod cefnogaeth eang i adroddiad y Farwnes Andrews, ni chlywsom braidd ddim pa wahaniaeth ymarferol yr oedd yr argymhellion wedi ei wneud neu yn ei wneud. O ystyried hyn, credwn y dylai'r Llywodraeth adolygu'r cynnydd o ran

gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad a chyhoeddi manylion yr hyn a wnaed hyd yn hyn a pha arfer da y gellir ei rannu, pa wersi a ddysgwyd a pha gamau pellach y mae angen eu cymryd i weithredu'r argymhellion.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog sbarduno adolygiad o'r hyn a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad diwylliant a thlodi y Farwnes Andrews i ddysgu pa arfer da y gellir ei rannu, pa wersi a ddysgwyd a pha gamau pellach y mae angen eu cymryd i weithredu'r argymhellion.

8. Statws Cadw

70. Yn dilyn adolygiad gan grŵp llywio yn gynharach eleni, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i adolygu trefniadau llywodraethu Cadw. Ar 16 Tachwedd 2017, dywedodd y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon newydd wrth y Pwyllgor fod Cadw, yn dilyn penderfyniad y Cabinet, yn mynd i aros o fewn Llywodraeth Cymru, ond gyda mwy o hyblygrwydd. Ymhelaethodd ar hyn mewn datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Tachwedd, lle y dywedodd fod y “dadleuon o blaid ac yn erbyn cadw Cadw yn rhan o’r Llywodraeth yn weddol gytbwys”, a bod astudiaeth busnes a gyflwynwyd i'r Cabinet yn argymhell “nifer o welliannau busnes a fydd yn ffordd bwysig o fynd i’r afael â'r materion a nodwyd gan adolygiadau blaenorol, o ran staff a rhanddeiliaid”.

71. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod rhyddid ychwanegol i Cadw wedi'i roi ganddo ef, drwy ei dîm rheoli uwch, i swyddogion Cadw, a'u bod yn gwybod yn union beth y mae hynny'n ei olygu.

72. Ymhelaethodd un o swyddogion Cadw ar y disgrifiad hwn, gan ddweud:

“...there are 10 recommendations about improving the flexibility of Cadw to be successful within Government. Broadly, they're along the lines of finance, they're along the lines of HR, and there's a technical delegation that is proposed as part of that, where either the chief exec, the deputy director of Cadw, who I'm going to be appointing over the next couple of months, or potentially myself as the chair, with the director hat on, will have a sub-accounting officer delegation. So, that's quite an important thing within the civil service. So, there'll be freedom and accountability there.”

Ein barn ni

Rydym yn parhau i fod yn aneglur ar union natur yr hyblygrwydd ychwanegol a roddir i Cadw.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach union natur yr “hyblygrwydd ychwanegol” y bydd Cadw'n ei gael yn y dyfodol, yn enwedig lle mae hyn yn wahanol i'r trefniadau a gynigir yn yr achos busnes a luniwyd ym mis Hydref 2017.

Atodiad – Y Tystion a'r Dystiolaeth

Sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma:

<http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=15157>

Mae gwe-ddarllediadau ar gael yn: www.senedd.tv

Dyddiad	Tystion	Sefydliad
12 Hydref 2017	Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Gwilym Hughes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, yr Amgylchedd Hanesyddol Tom Cosson, Uwch Gynghorydd Diwylliant a Thlodi Cadw, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	Llywodraeth Cymru
	Dr Eurwyn Wiliam, Cadeirydd Christopher Catling, Ysgrifennydd (Prif Weithredwr),	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
22 Tachwedd 2017	Jonathan Thompson, Uwch Gynghorydd Treftadaeth Rhianne Jones, Swyddog Polisi	Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
	Alex Glanville, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo	Yr Eglwys yng Nghymru
	Gethin Rhys, Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol	Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
	Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol	Undeb Bedyddwyr Cymru
	Dr Christian Williams, Cydgysylltydd	Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru
	Rob Lennox, Cynghorydd Polisi Kate Geary, Pennaeth Ymarfer a Datblygiad Proffesiynol	Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr

30 Tachwedd 2017	Jane Lee, Swyddog Polisi - Ewrop ac Adfywio	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
	Amy Longford, Rheolwr Treftadaeth	Cyngor Sir Fynwy
	Peter Thomas, Uwch Gynllunydd (Cadwraeth a Dylunio), Adfywio a Chynllunio	Cyngor Bro Morgannwg
	Justin Albert, Cyfarwyddwr Dr Emma Plunkett-Dillon, Pennaeth Cadwraeth	Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
6 Rhagfyr 2017	Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC	Y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
	Jason Thomas - Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth	Llywodraeth Cymru
	Gwilym Hughes - Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Amgylchedd Hanesyddol	Llywodraeth Cymru

Tystiolaeth ysgrifenedig

Daeth tystiolaeth i'r pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad y Pwyllgor rhwng 3 Tachwedd 2016 a 30 Tachwedd 2016. Gellir gweld y cyflwyniadau i'r ymgynghoriad isod:

<http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=19747>

Cyfeirnod	Sefydliad
HE01	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
HE02	Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr
HE03	Cytûn
HE04	Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol
HE05	Comisiynydd y Gymraeg
HE06	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (Cymru)
HE07	Castell Fonmon
HE08	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
HE09	Coed Cadw
HE10	Cyd-bwyllgor y Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol
HE11	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
HE12	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
HE13	Cadw
HE14	Addoldai Cymru